



Polisi Ffioedd Dysgu

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo : 2017

Perchennog y polisi: Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyswllt ar gyfer y polisi: Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol

Statws y polisi: Fersiwn ddiwygiedig: 1.0

Yr adolygiad diwethaf: 2020

Dyddiad yr adolygiad nesaf: 2021

Polisi Ffioedd Dysgu Prifysgol Aberystwyth

Diben y polisi

- Gosodir ffioedd dysgu ar lefel sy'n denu myfyrwyr i Aberystwyth ac yn caniatáu i Brifysgol Aberystwyth weithredu'n gynaliadwy.

Gosod Ffioedd Dysgu

Prif ffioedd Prifysgol

- Israddedigion Cartref / UE** – Caiff y ffioedd hyn eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan. Bydd y Brifysgol yn diwygio'r holl Ffioedd Dysgu israddedig Cartref / UE yn unol ag unrhyw newidiadau a gynghorir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan. Bydd unrhyw newid i'r ffioedd rheoledig hyn yn gymwys i fyfyrwyr sydd eisoes yn astudio yma yn ogystal ag i fyfyrwyr newydd.
- Uwchraddedigion Cartref / UE ar gyrsiau a ddysgir** – Caiff y ffioedd hyn eu gosod trwy gyfeirio at farchnad Addysg Uwch y Deyrnas Gyfunol a'u hadolygu'n flynyddol.
- Uwchraddedigion Cartref / UE ar gyrsiau ymchwil** – Caiff y ffioedd hyn eu gosod ar y lefel genedlaethol a gyhoeddir gan y Cynghorau Ymchwil.
- Ffioedd Dysgu Rhyngwladol** - Caiff y ffioedd cyffredinol am y ddarpariaeth ryngwladol eu gosod trwy gyfeirio at Ffioedd Rhyngwladol a godir yn y farchnad Addysg Uwch yn y Deyrnas Gyfunol ac unrhyw amodau macro-economaidd, a'u hadolygu'n flynyddol.
- Ffioedd rheoledig, gan gynnwys blwyddyn dramor a blwyddyn mewn diwydiant** - Gosodir eu gwerthoedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Ffioedd eraill

Mae ffioedd eraill Prifysgol yn cynnwys ffioedd modiwl ar greddyddau, ffioedd ailsefyll arholiadau, a ffioedd dysgu o bell. Caiff y ffioedd hyn eu gosod trwy gyfeirio at gostau'r ddarpariaeth a'r ffioedd a godir gan ddarparwyr eraill Addysg Uwch yn y Deyrnas Gyfunol.

Cynydd cysylltiedig â Chwyddiant

Cynyddir y ffioedd dysgu a delir gan fyfyrwyr unigol bob blwyddyn, yn unol â graddfa chwyddiant (nid y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o angenrheidrwydd) cyhyd â bod y rheoliadau'n caniatáu hynny. Caniateir hyn ar hyn o bryd yn achos myfyrwyr rhyngwladol ac uwchraddedigion, ond nid yn achos israddedigion cartref/UE.

Mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan yn caniatáu i ffioedd dysgu Israddedigion Cartref / UE i godi o ychydig yn y blynyddoedd i ddod er mwyn rhoi cyfrif i bwysau cysylltiedig â chwyddiant.

Matrics awdurdodi

	Argymhellwyd gan:	Awdurdodwyd gan:
Polisi Ffioedd Dysgu	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth	Y Cyngor
Prif Ffioedd	Gweithrediaeth y Brifysgol	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth
Ffioedd eraill	Pwyllgor Ffioedd ac Ysgoloriaethau	Gweithrediaeth y Brifysgol